OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1734 (Cy.177)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud - -* | *6 Gorffennaf 2004* |
| *Yn dod i rym* | |
| *ac eithrio erthygl 4(3)* | *31 Gorffennaf 2004* |
| *erthygl 4(3)* | *31 Awst 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 69(3) a (4) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**), ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ar ôl dilyn y weithdrefn a bennir yn Rheoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion (Y Weithdrefn Ddynodi) 1998(**3**):

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004.

(2) Ac eithrio erthygl 4(3) daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Gorffennaf 2004.

(3) Daw erthygl 4(3) i rym ar 31 Awst 2004

(4) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "yr enwad crefyddol perthnasol" ("*the relevant religious denomination*") yw'r enwad crefyddol y mae'n ofynnol, neu y gall fod yn ofynnol, darparu addysg grefyddol yn unol â'i ddaliadau mewn ysgol yn unol ag Atodlen 19 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

### Dynodi

**2.** Dynodir yr ysgolion a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol.

(**1**) 1998 p.31.
(**2**) *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddi (O.S.1999/672).
(**3**) O.S. 1998/2535.

**3.** Yr enwad crefyddol perthnasol mewn perthynas ag ysgol a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yw—

(a) Yr Eglwys yng Nghymru, yn achos ysgol a restrir yn Rhan I o'r Atodlen;

(b) Catholig, yn achos ysgol a restrir yn Rhan II o'r Atodlen; ac

(c) Eglwys Loegr yn achos ysgol a restrir yn Rhan III o'r Atodlen.

**Diwygio Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 1999**

**4.**—(1) Diwygir Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 1999(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn Rhan I o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwnnw —

(a) hepgorwch y cofnodion ar gyfer:

(i) Jeffreyston Voluntary Controlled Primary School;

(ii) Manordeifi Upper Voluntary Controlled Primary School;

(iii) Ysgol Gynradd Wirfoddol Myddfai; a

(iv) Portskewett Voluntary Controlled Infants School; a

(b) hepgorwch y cofnod ar gyfer St. Paul's Primary School o'r rhestr o Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Reolir a mewnosodwch gofnod union debyg ar gyfer St. Paul's Primary School yn y rhestr o Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyir.

(3) Yn Rhan II o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwnnw hepgorwch y cofnod ar gyfer St Winefrides Roman Catholic School, Sir Ddinbych.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

6 Gorffennaf 2004

(**4**) O.S. 1999/1814.
(**5**) 1998 p.38.

YR ATODLEN

Rheoliadau 2 a 3

# RHAN I

## YSGOLION SYDD Å CHYMERIAD CREFYDDOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU

| AALl | Enw'r Ysgol | Categori'r Ysgol |
|---|---|---|
| Sir Fynwy | Ysgol Gynradd yr Archesgob Rowan Williams — Ysgol Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir |
| Sir Benfro | Ysgol Gynradd Sant Oswallt — Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir |
| Powys | Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanelwedd— Ysgol Wirfoddol a Reolir | Ysgol Wirfoddol a Reolir |

# RHAN II

## YSGOLION SYDD Å CHYMERIAD CREFYDDOL CATHOLIG

| AALl | Enw'r Ysgol | Categori'r Ysgol |
|---|---|---|
| Sir Ddinbych | Ysgol y Santes Ffraid | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir |

# RHAN III

## YSGOLION SYDD Å CHYMERIAD CREFYDDOL EGLWYS LOEGR

| AALl | Enw'r Ysgol | Categori'r Ysgol |
|---|---|---|
| Powys | Ysgol Eglwys Loegr Sarn | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n dod i rym ar 31 Gorffennaf 2004, yn dynodi ysgolion yng Nghymru sydd â chymeriad crefyddol yn unol ag adran 69(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Dynodir yr ysgolion hyn yn ogystal â'r ysgolion hynny a restrir eisoes yng Ngorchymyn Dynodi Ysgolion sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 1999 ("Gorchymyn 1999").

Mae dynodi ysgol sydd â chymeriad crefyddol yn berthnasol ar gyfer nifer o ddibenion o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("y Ddeddf"), yn arbennig:

(a) fel rhan o'r mecanwaith ar gyfer penderfynu ar ffurf yr addysg grefyddol sydd i'w darparu o dan Atodlen 19 i'r Ddeddf;

(b) fel rhan o'r mecanwaith ar gyfer penderfynu ar ffurf yr addoli ar y cyd sydd i'w ddarparu o dan Atodlen 20 i'r Ddeddf;

(c) fel rhan o'r mecanwaith ar gyfer penderfynu ar faterion staffio ysgol o dan adrannau 58-60 o'r Ddeddf;

(ch) at ddibenion penderfynu ar y trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion o dan adran 89 o'r Ddeddf; a

(d) at ddibenion cael gwared ar asedau o dan baragraff 5 o Atodlen 3 i'r Ddeddf, er mwyn ailgyfeirio asedau er lles ysgolion o'r un crefydd neu o'r un enwad crefyddol.

Nid yw'r dynodiad gan y Gorchymyn hwn ynddo'i hun yn fodd i ennill cymeriad crefyddol na newid cymeriad crefyddol. Mae dynodiad yn cydnabod nodweddion presennol penodol yr ysgol neu ei chorff llywodraethu fel y disgrifir hwy yn Rheoliadau Cymeriad Crefyddol Ysgolion (Y Weithdrefn Ddynodi) 1998 (O.S. 1998/2535). O dan y Ddeddf rhaid i ysgol gau yn gyntaf os yw i ennill cymeriad crefyddol, onid oes ganddi un eisoes fel cwestiwn o ffaith, neu os yw i newid ei chymeriad crefyddol.

Nid yw datganiad yn y Gorchymyn mewn perthynas ag ysgol fod yr enwad crefyddol y mae'n ofynnol, neu y gall fod yn ofynnol, darparu addysg grefyddol yn unol â'i ddaliadau yn yr ysgol yn unol ag Atodlen 19 i Ddeddf 1998, yn Gatholig yn penderfynu a yw ysgol yn ysgol Gatholig neu beidio yn unol â chyfraith ganon.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud diwygiadau i Orchymyn 1999 er mwyn adlewyrchu'r ffaith:

(i) bod rhai ysgolion sydd wedi'u rhestru yn y Gorchymyn hwnnw wedi cau: a

(ii) bod un o'r ysgolion sydd wedi'u rhestru yn y Gorchymyn hwnnw wedi newid categori.